PWYLLGOR PENODI - PRIF GYFREITHYDD CYFREITHIWR

DYDD LLUN, 4 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Derbyshire, Mackie a/ac Williams |

9 : YMDDIHEURIADAU

Dim

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau yn y cyfarfod hwn.

11 : CYLCH GORCHWYL

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

12 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd.

13 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid eithrio'r cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod.

Paragraff 12 – Gwybodaeth ynghylch ymgeisydd a fydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth oedd yn debygol o ddatgelu hunaniaeth yr unigolyn.

14 : PENODI PRIF GYFREITHYDD CYFREITHIWR

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Prif Gyfreithiwr Ymgyfreitha gyfarfod i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor cais gwreiddiol yr ymgeisydd, sut wnaeth yr ymgeisydd sgorio yn erbyn cymwyseddau gofynnol y swydd a'r asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn trafod cryfderau a sgiliau'r ymgeisydd. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r ymgeiswyr gael symud ymlaen i'r cam cyfweliad ffurfiol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau ar gyfer pwnc y cyflwyniadau gan osod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD:

1. Gwahodd ymgeisydd 11 i gyfweliad.

2. Rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y pwnc sydd wedi'i ddewis ar gyfer y cyflwyniad ac y caniateir uchafswm o 10 munud ar gyfer y cyflwyniad hwnnw.

3. Llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y Pwyllgor cyfweld.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD LLUN 11 MAWRTH 2019

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm